

Bwyd Da Caerdydd

Gŵyl Hydref

12 Medi - 18 Hydref 2020

Sut gallwch chi gymryd rhan?

Gall unrhyw un yn y ddinas drefnu digwyddiad a chymryd rhan yn yr ŵyl - y cyfan mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni fel y gallwn gynnwys eich digwyddiad yn rhaglen Gŵyl yr Hydref.

Mae angen grwpiau ymhob rhan o'r ddinas i gynnal digwyddiadau, boed y rheiny'n fawr neu'n fach, yn rhithwir neu â mesurau ymbellhau cymdeithasol, a bod yn rhan o'r mudiad bwyd da mwy sylweddol hwn.

Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau a'r syniadau o'r pecyn cymorth hwn i helpu i sefydlu a chynnal eich digwyddiad. Mae cymorth i drefnu digwyddiadau - yn enwedig o ran sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu gwneud mor ddiogel â phosibl - ar gael gan Reolwr Project Gŵyl yr Hydref.


Efallai y bydd cyllid ar gael hefyd i helpu gyda'r costau sydd ynghlwm wrth wneud digwyddiadau'n ddiogel rhag Covid-19.

Cysylltwch â Meg Hastings, Rheolwr Project yr Ŵyl yn: meg.hastings@2canproduction

Syniadau ar gyfer digwyddiadau y gallwch eu cynnal

Mae Gŵyl yr Hydref yn gasgliad o ddigwyddiadau rhithwir a ffisegol â mesurau ymbellhau cymdeithasol ar hyd a lled y ddinas sydd wedi'u gwneud yn ddiogel rhag Covid-19.

Rydym yn awgrymu bod digwyddiadau'n cael eu cynnal o dan dair thema - Tyfu, Coginio a Rhannu - ac, wrth gwrs, gallwch gyfuno unrhyw un neu bob un o'r tair hyn.



Gall grwpiau gynnal digwyddiadau mawr (hyd at 200 o bobl), digwyddiadau bach (hyd at 35 o bobl) neu ddigwyddiadau ar-lein (sy'n gweithio orau i hyd at 12 o bobl).

Er mwyn eich ysgogi, dyma rai syniadau ar gyfer digwyddiadau a fyddai'n gweithio'n dda iawn fel rhan o Wyl yr Hydref:

Cyfnewid cynnyrch

Mae hwn yn fformat digwyddiad hyblyg iawn - a allai fod yn fawr neu'n fach - lle gwahoddir pobl i gyfnewid y cynnyrch y maent wedi'i dyfu. Yn aml, mae hyn hefyd yn cynnwys rhannu planhigion a hadau neu gyfnewid offer a chyfarpar. Tra bydd pobl gyda'i gilydd ar gyfer y cyfnewidiadau, bydd hefyd yn gyfle i gynnig gweithdai fel y gall pobl ddysgu sgiliau newydd.

Prydau cymunedol


Mae'r rhain yn gweithio'n dda ar gyfer grwpiau cymunedol llai, lle gellir paratoi bwyd yn ddiogel mewn cegin gyda Sgôr Hylendid Bwyd. Mae pobl yn rhoi cynnyrch y maent wedi'i dyfu neu ei brynu'n lleol. Mae hyn yn cael ei goginio gan aelodau o'r gymuned a'i fwynhau fel pryd a rennir.

Picnic cymdogaeth

Mae hwn yn opsiwn da ar gyfer dod â chymdogion at ei gilydd a chwrrd â phobl newydd yn eich ardal. Gallai fod mewn parc lleol neu ardd a rennir, neu wedi'i osod mewn stryd ochr neu lôn gefn. Gallech hyd yn oed alw ar gymdogion talentog i ddarparu cerddoriaeth neu adloniant. Mae pawb yn dod â'u bwyd a'u diod eu hunain ac nid oes unrhyw rannu bwyd, llestri na chyllyll a ffyrc.

Llwybr planhigion

Mae llwybr planhigion yn ffordd dda o gael llawer o bobl i gymryd rhan mewn digwyddiad wrth gadw pellter corfforol - gall pobl ddilyn y llwybr mewn grwpiau aelwyd ar adegau gwasgarog. Rydych chi'n creu map o'r ardal leol gyda llwybr penodol y gall pobl ei ddilyn a chynaeafu cynhwysion ar hyd y ffordd. Gallai hyn gynnwys gerddi cymunedol, rhandiroedd, gerddi preifat neu fannau chwilota. Anogwch bobl i rannu lluniau a syniadau am ryseitiau o'r prydau bwyd a wnânt gyda'r cynnyrch.



Diwrnodau agored gerddi cymunedol

Gall gerddi cymunedol agor i grwpiau bach o bobl i helpu gyda'u cynhaeaf hydrefol neu i gasglu planhigion neu hadau ar gyfer cynnyrch y gaeaf. Os bydd digon o le, mae cyfle hefyd i gynnal gweithdai neu sesiynau rhannu sgiliau.

Gweithdai ar-lein

Oherwydd i ddigwyddiadau symud ar-lein yn ystod y cyfnod cloi, mae llawer mwy o bobl bellach yn gyfforddus yn defnyddio offer fel Zoom, Teams a Google Meet. Mae'n hawdd sefydlu digwyddiad ar-lein a gellir cofnodi a rhannu sesiynau er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Os ydych chi'n fwy cyfforddus yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol - gallech roi cynnig ar ddefnyddio Facebook neu Instagram Live ar gyfer eich digwyddiad. Mae'r syniadau ar gyfer gweithdai ar-lein y gallech eu cynnal yn cynnwys beth i'w blannu yn yr hydref, sut i gadw hadau, neu goginio gyda chynnyrch yr hydref.

